



## Adroddiad y Prif Arholwr

### Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Mai 2014

*Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.*

*Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.*

### Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 16

Llwyddo: 4

Er mai 4 yn unig o'r ymgeiswyr a lwyddodd, da nodi bod mwyafrif o'r gweddill o fewn cyrraedd i lwyddo yn y dyfodol, gan i'w gwaith dderbyn sawl gradd 1. Fel sy'n digwydd yn aml, cafwyd ambell enghraifft o ymgeiswyr yn cael tipyn gwell hwyl ar y darn cyntaf na'r ail ddarn, o bosibl oherwydd nad oeddent wedi caniatáu digon o amser ar gyfer ail hanner y papur. Wrth gyflwyno gwaith o dan amodau arholiad, mae rheolaeth ar amser yn gallu bod yn elfen bwysig dros ben, a byddwn i'n annog pob darpar ymgeisydd i rannu'r amser yn fanwl cyn cychwyn ar y gwaith, gan gofio caniatáu digon o amser darllen a mireinio, yn ogystal ag amser cyfieithu, ar gyfer y ddau ddarn.

Da nodi hefyd bod safon y sillafu a'r treiglo, ar y cyfan, yn foddhaol, er y byddid yn naturiol yn gobeithio gweld hynny ar y lefel hon, ond yn anffodus, cafwyd mwy o wallau cystrawen nag y byddid wedi disgwyl, o ystyried mai aelodaeth gyflawn oedd dan sylw.

#### **Darn 1**

Er nad oedd hwn yn ddarn arbennig o anodd, cafodd nifer o'r ymgeiswyr eu baglu gan rai elfennau. Yn achos ambell un, cafwyd trafferth hyd yn oed gyda'r teitl, **Contested Wills**. Er bod y mwyafrif wedi cyfieithu hyn yn llwyddiannus (*Herio Ewyllysiau* neu *Ewyllysiau a gaiff eu herio*), cafwyd ambell enghraifft oedd ymhell iawn o daro deuddeg, megis *Ewyllysiau a Wrthwynebir*, *Cystadlaethau Ewyllys*, ac *Ewyllysiau a Ymleddir*. Heb fod yn orfeirniadol, rhaid cwestiynu o ddifri a yw ymgeisydd sy'n gallu cyflwyno cynigion mor anaddas â hyn wedi cyrraedd safon addas i sefyll arholiad proffesiynol ym maes cyfieithu.

Man arall lle cafodd nifer o'r ymgeiswyr drafferth oedd pumed paragraff y darn:

**With such complex factors to consider, and in light of the strict procedural rules governing the validity of wills, it is not surprising that where people have not taken expert legal advice, the relatively small amount of money initially saved in drawing up the will is soon out-weighed by the cost of defending a dispute.**

Er bod rhai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus:

*...pan nad yw pobl wedi cymryd cyngor cyfreithiol arbenigol nid yw'n syndod yn y byd fod yr ychydig arian a arbedwyd yn wreiddiol...*

*...nid yw'n syndod, mewn achosion lle nad yw pobl wedi cael cyngor cyfreithiol arbenigol, y caiff y swm gweddol fychan...*

cafwyd enghreifftiau eraill oedd yn drwsogl iawn:

*...nid yw'n fawr o syndod pan nad yw pobl wedi cael cyngor cyfreithiol arbenigol, mae'r gost o amddiffyn anghydfod yn fuan yn drech na'r swm cymharol fach o arian a arbedwyd i ddechrau...*

*...nid oes syndod lle nad yw pobl wedi derbyn cyngor cyfreithiol arbenigol, buan iawn y caiff y swm cymharol fach o arian a arbedwyd...*

*...nid oes rhyfedd, mewn achosion lle nad yw pobl wedi cymryd cyngor cyfreithiol arbenigol, fod y swm cymharol fychan o arian a gynilwyd yn wreiddiol i lunio'r ewyllys yn cael ei lyncu'n fuan gan gost amddiffyn dadl yn ei herbyn.*

Mae'r enghraifft olaf hon hefyd yn dangos y trafferth a gafodd ambell ymgeisydd i wahaniaethu rhwng gwahanol ystyron y gair **save** (*achub/cynilo/arbed*). Cafwyd rhai dewisiadau geirfaol eraill anaddas, e.e. *dynesu* am **approach (way of thinking)**, a *caledrwydd* am **hardship**, yn ogystal â thuedd i ddefnyddio lluosogion amhriodol megis *etifeddiaethau*.

Ymadroddion Saesneg eraill a achosodd anhawster oedd **to take a litigious approach** a **The situation has been worsened**. Yn achos y cyntaf, er bod rhai wedi defnyddio trosiadau Cymraeg naturiol, e.e. *i fynd â materion i gyfraith/i gymryd camau cyfreithiol*, cafwyd hefyd gynigion cwbl anaddas megis *i ddilyn dull cyfreithgar/i ddynesu yn gyfreithiol*. O ran yr ail, nid oedd pawb, o bell ffordd, wedi sylweddoli y byddai'n fwy naturiol osgoi'r goddefol yn Gymraeg, a chynnig rhywbeth megis: *Mae gwerth cynyddol ystadau... wedi gwneud y sefyllfa'n waeth*.

Fel y soniwyd eisoes, siomedig hefyd oedd gweld methiant sawl ymgeisydd i ddefnyddio cystrawennau Cymraeg hanfodol yn llwyddiannus, e.e. defnyddio ffurfiau megis *sylweddoli roedd* neu *efallai yr oedd*, yn hytrach na defnyddio *bod* yn gywir.

Afraid dweud bod disgwyl i gyfieithiad ar y lefel hon argyhoeddi'n llwyr fel darn o Gymraeg naturiol, felly mae unrhyw wallau sy'n amharu ar lif y darn, neu sy'n dangos yn amlwg mai cyfieithiad ydyw, yn atal y trosiad rhag bod yn llwyddiannus.

## **Darn 2**

Roedd y darn hwn yn galw am gryn dipyn yn fwy o allu creadigol na'r darn cyntaf, ac fe'i dewiswyd yn fwriadol, gan fod disgwyl i ymgeiswyr ar y lefel hon fedru ymdopi â chyfieithu darnau nad ydynt o reidrwydd yn debyg i waith beunyddiol y cyfieithydd.

Gan fod disgwyl i ymgeiswyr ar y lefel hon feddu ar afael gref ar deithi'r Gymraeg, y gobaith yw y bydd darn o'r math hwn yn rhoi cyfle iddynt ddisgleirio.

Enghraifft amlwg o hyn oedd y teitl, lle buasai *Marwnad* yn ffordd effeithiol o gyfleu ergyd **Requiem** yn y Saesneg, er y buasai rhywbeth megis *Ffarwel i'r Panda* hefyd yn ddigon derbyniol. Yn anffodus, yn lle hynny, er bod ambell gynnig eitha da megis *Er Cof am y Panda*, roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi dewis cyfieithu **Requiem** â'r gair anaddas *Offeren* ('Mass' yn llythrennol), ac felly wedi methu â chyfleu naws y teitl gwreiddiol.

Roedd tuedd hefyd ymhlith yr ymgeiswyr i gyfieithu'n or-ffurfiol, e.e.:

**However unsatisfactory it was, you still look back on it with a certain degree of fondness.**

*Pa mor anfoddfaol bynnag y profiad, bydd, er hynny, yn atgof lled-felys wrth i rywun ei ddwyn i gof.*

**...buying your first car is a bit like losing your virginity.**

*...mae prynu eich car cyntaf yn ymdebygu i fwrw eich gwryfdod.*

Fel yn y darn cyntaf, roedd cymalau 'bod' yn trechu rhai ymgeiswyr, a chafwyd ffurfiau angramadegol megis *oherwydd yr oeddwn / dweud yr oedd gan fy nghar broblem / Efallai yr oedd yn edrych yn ofnadwy*. Fel y nodwyd eisoes, siomedig iawn yw gweld gwallau o'r math hwn ar y lefel hon.

Wedi dweud hynny, cafwyd llawer o enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, a rhai cyffyrddiadau oedd yn cyfleu union natur y gwreiddiol, gan gynnwys yr elfen tafod yn y foch e.e.:

**...the princely sum...**

*...swm anrhydeddus...*

**...people were doubled up with laughter.**

*...gan fod pobl yn eu dyblau'n chwerthin.*

**To say my car had a problem with rust is an understatement.**

*Nid yw dweud bod gan fy nghar broblem gyda rhwd yn cyfleu ei hanner hi.*

**In summer, there was no need to wind the windows down for ventilation.**

*Yn yr haf, nid oedd angen agor y ffenestri i gael awyr iach.*

**...I had to pay twice the car's value to get it back.**

*...bu'n rhaid imi dalu ddwywaith gwerth y car i'w gael yn ôl.*

**My first car was, quite frankly, embarrassing**

*A bod yn onest, roedd fy nghar cyntaf yn ddigon i godi cywilydd*

Er mai cyfran gymharol fach o'r ymgeiswyr a lwyddodd, felly, mae pethau addawol yng ngwaith nifer sylweddol o'r lleill, ac ni ellir ond annog yr ymgeiswyr aflwyddiannus, unwaith yn rhagor, i ddarllen Cymraeg safonol bob cyfle gânt. Dylent hefyd fynd ati i geisio gloywi eu sgiliau ieithyddol, nid yn unig wrth gyfieithu, ond hefyd wrth ddarllen a golygu eu gwaith, gan fod rhaid gallu cyflawni'r ddwy dasg yn llwyddiannus i lwyddo ar y lefel hon.

## **Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Nifer yr ymgeiswyr: 6

Llwyddo: 1

Yn anffodus un ymgeisydd yn unig oedd yn cyrraedd y safon, a siom yw gweld canran mor isel yn llwyddo yn yr arholiad hwn unwaith yn rhagor. Serch hynny, cafwyd nifer o bethau da yng ngwaith ymgeiswyr eraill, a chafwyd yr argraff eto, fel yn achos yr arholiad i'r Gymraeg, bod ambell un heb reoli'r amser yn ddigon gofalus i fedru sicrhau bod yr ail ddarn yn cyrraedd safon y cyntaf.

Wedi dweud hynny, er bod peth ymadroddi da a rhai brawddegau effeithiol, gellid dweud yn gyffredinol nad oedd y cyfieithiadau'n darllen yn naturiol yn Saesneg. Er bod rhaid mynd ati i gyfleu ystyr y gwreiddiol yn fanwl gywir wrth gyfieithu, ar ôl gwneud hynny, mae angen cymryd cam yn ôl, a darllen y cyfieithiad ar ei ben ei hun, er mwyn sicrhau ei fod yn argyhoeddi'r darlennydd.

### **Darn 1**

Syndod, ar y lefel hon, oedd gweld ymgeiswyr yn cael eu baglu gan derminoleg y disgwylid iddynt fod yn ddigon cyfarwydd â hi, e.e. defnyddio *officers* wrth gyfieithu **swyddogion Brwsel**, *general agricultural policy* am **y polisi amaethyddol cyffredin**, *European Government* am **Senedd Ewrop** a *Wales' benefits* am **buddiannau Cymru**.

Yn anffodus, cafwyd hefyd rai manau lle roedd ystyr y gwreiddiol wedi'i lurgunio'n llwyr, e.e.:

**...polisi dadleuol a gyfrannodd dri biliwn i'r diwydiant amaeth Cymreig rhwng 2007 a 2013 yn unig.**

*...a controversial policy which contributed only three million to the Welsh agriculture industry between 2007 a 2013.*

neu lle roedd y mynegiant mor drwsogl nes peri bod y frawddeg, i bob pwrpas, yn ddiystyr, e.e.:

**Ac mae gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau i fod yng nghategori ardaloedd tlotaf Ewrop gyfan.**

*And west Wales and the Valleys remain in the poorest areas throughout Europe category. And west Wales and the Valleys continue to be the in the poorest areas category in all of Europe.*

Cafodd mwyafrif yr ymgeiswyr drafferth wrth gyfieithu **...a'r enghraifft ddiweddaraf o hynny yw Polisi 'Cydlyniant' yr Undeb Ewropeaidd**, er bod un ymgeisydd wedi cael fflach o ysbrydoliaeth trwy ddefnyddio *the latest case in point*. Buasai *...the most recent example being...* yn ddull digon naturiol o gyfuno dwy elfen y frawddeg, ond yn lle hynny cafwyd enghreifftiau megis *...and the latest example of those is the European Union's 'Coherency' Policy*.

Wedi dweud hynny, cafwyd rhai pethau da hefyd, e.e.:

**...am beidio ag amddiffyn...**

*...for failing to defend...*

**...beirniadu David Cameron yn hallt...**

*...criticised David Cameron harshly...*

**...i leihau'r bwlch enfawr...**

*...to reduce the enormous discrepancy...*

**...ardaloedd cyfoethocach...**

*...the wealthier areas...*

## **Darn 2**

Gellid dweud yn gyffredinol na chafodd yr ymgeiswyr gystal hwyl ar y darn hwn, o bosibl oherwydd ei fod mewn cywair mwy ffurfiol, ac felly yn galw am ddefnyddio cywair tebyg yn y Saesneg. Serch hynny, cafwyd rhai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, e.e.:

**...ieithwedd...**

*...linguistic style...*

**...traddodiad o ramadegu deddfol sydd gan y Gymraeg.**

*...the Welsh language has a tradition of prescriptive grammar.*

**...modd i fwy nag un ffurf ddigwydd...**

*...more than one form can occur...*

**...fe ddeddfir mai dim ond un ohonynt sy'n 'gywir'.**

*...only one is deemed to be 'correct'.*

**...nid cysyniad i ymwrthod ag ef...**

*...not a concept that should be rejected...*

**...mai hwy a ddefnyddid...**

*...that these were the forms...*

Yn anffodus, fodd bynnag, cafwyd digonedd o frawddegau lle cymylwyd ystyr y gwreiddiol a cholli'r pwyslais, weithiau i'r graddau fel bod y cyfieithiad yn drwsgl dros ben, e.e.:

**Er hynny, nid cysyniad i ymwrthod ag ef yw cywirdeb...**

*Despite that, accuracy is not a concept to abstain from...*

**I raddau helaeth, traddodiad o ramadegu deddfol sydd gan y Gymraeg.**

*To a large extent, Welsh is a tradition of dictatorial grammars.*

**...gall ymddangos bod bwlch diadlam rhwng yr hyn a ysgrifennir gan yr ychydig rai a lwyddodd i feistrolï'r confensiynau hynny...**

*...it may seem that there is a rift that cannot be crossed between the written work of the few that succeeded to master these conventions...*

Gellir crynhoi'r sylwadau ar y gwaith hwn, felly, trwy ddweud bod angen i'r ymgeiswyr ymglyfarwyddo'n fwy â phatrymau Saesneg graenus. Os ydynt am lwyddo ar y lefel hon, rhaid iddynt geisio ychwanegu at yr enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a gafwyd ganddynt, fel bod y cyfieithiad cyfan yn darllen fel darn Saesneg gwreiddiol, ac yn argyhoeddi'r darllynydd.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch i'r holl farcwyr am eu gwaith trylwyr, ac i staff y swyddfa am bob cymorth. Mae'r tîm cyfan bob amser yn barod eu cymwynas, ac yn amyneddgar dros ben – diolch o galon iddynt i gyd am hwyluso gwaith y Prif Arholwr i'r fath raddau.

**Fiona Gannon  
Mehffin 2014**